

CYNGOR SIR PENFRO – ASESIAID EFFAITH INTEGREDIG



Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw fanwl gyfatebol cyn ac wrth gwblhau'r asesiad. RHAID i asesiad effaith integredig gael ei gwblhau ar gyfer POB adroddiad cyngor / cabinet sy'n argymhell penderfyniad ffurfiol yn ymwneud â'r canly

- Newidiadau sylweddol i ddarpariaeth gwasanaeth
- Gwariant neu arbedion sylweddol
- Unrhyw gamau gweithredu sy'n arwyddocaol o ran eu heffeithiau ar gymunedau lleol

Swyddog Arweiniol	Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth	Gwasanaeth / Adran	Dyddiad
Jon Haswell	Jon Haswell	Adnoddau	14 Tachwedd 2025

Teitl yr adroddiad / prosiect:	Cynigion arbed cyllideb ar gyfer 2026–2027 a thu hwnt
--------------------------------	---

Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?

Cynigion ar gyfer ymgynghori fel rhan o gyllideb 2026–2027. Mae cynigion y gyllideb yn cael eu rhestru a'u categorio yn ôl eu heffaith debygol yn y modelwr cyllideb. Mae lefel yr arbedion cyllidebol y mae eu hangen (neu pa mor bell i lawr y rhestr) y bydd angen i'r cyngor fynd yn destun ansicrwydd, ac y mae hefyd yn dibynnu ar lefel y cynnydd yn y dreth gyngor a ddewisir gan yr aelodau. Bydd papurau cyllideb cyfarfod cabinet mis Rhagfyr yn gosod ein hamcangyfrifon gorau o lefel cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau ariannu a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhain.

Yn seiliedig ar dybiaethau gweithio yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynnydd o 7.5% yn y dreth gyngor, mae maint y bwlch ariannu o'i gymharu â gwerth cronrus yr arbedion yn golygu ei bod hi'n debygol iawn y bydd pob cynnig arbed o Wyrdd i Goch 1 yn cael ei gymryd gyda llawer o arbedion Coch 2 yn cael eu cymryd hefyd.

Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu fel a ganlyn:

Adran 1 Ymgynghori ac ymgysylltu

Adran 2 Data a thystiolaeth

Mae'r adrannau canlynol yn gofyn i chi asesu effaith eich cynnig o ystyried:

Adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Adran 4 Amcanion llesiant Cyngor Sir Penfro

Adran 5 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)

Adran 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6

Adran 8 Datgarboneiddio a newid hinsawdd – Cyngor Sir Penfro sy'n garbon sero net erbyn 2030

Adran 9 Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

Adran 1 – Ymgynghori ac ymgysylltu

Rhowch fanylion y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd i gefnogi'r cynnig, gan ystyried egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n nodi mai dim ond pan fydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu bodloni y mae ymgynghoriad yn ddilys:

1. Mae'r cynigion mewn cyfnod ffurfiannol – ni ddylai penderfyniadau fod wedi'u gwneud na'u pennu ymlaen llaw
2. Mae digon o wybodaeth i roi 'ystyriaeth ddeallus' – rhaid i wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad fod ar gael, yn hygyrch ac yn hawdd ei dehongli fel bod ymgynghoreion yn gallu rhoi ymateb gwybodus
3. Mae digon o amser i ystyried ac ymateb – rhaid i'r cyfnod ymgynghori fod yn ddigon hir i roi digon o gyfle i ymgynghoreion gymryd rhan
4. Rhaid ystyried ymatebion i ymgynghoriadau cyn gwneud penderfyniad – a allwch chi ddarparu tystiolaeth o hyn?

Bydd ymgynghoriad ar gynigion yn cael ei gynnal rhwng diwedd mis Tachwedd 2025 a 4 Ionawr 2026. Oherwydd dyddiadau cau'r pwyllgor ar gyfer cyllideb 2026–2027 a'r angen i adrodd canlyniadau'r ymgynghoriad iddynt, ni allwn ymestyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 4 Ionawr 2026.

Er mwyn osgoi penderfyniad ymlaen llaw, mae rhai cynigion ar gyfer 2026–2027 naill ai wedi bod yn destun penderfyniad (e.e. penderfyniad i gaffael safle i'w ddefnyddio fel cartref plant) neu maent ar yr agenda ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn diwedd yr ymgynghoriad, ac nid ydynt wedi'u cynnwys fel cynigion ar gyfer ymgynghori. Gosodwyd premiymau'r dreth gyngor ar gyfer tai gwag ac

ail gartrefi yng nghyfarfod y cyngor ym mis Hydref 2025, yn ogystal â phenderfyniad ar sut y dylid defnyddio unrhyw gyllid o'r premiymau. Mae goblygiadau ariannol hyn wedi'u hymgorffori yn y cyfrifiad o'r bwlch ariannu.

Nid yw cynigion sydd ag effaith gyfyngedig ar y cyhoedd, neu lle nad oes gan drigolion fawr o ddylanwad dros fynd ymlaen (e.e. cydbwysedd cyllid y cyngor a'r bwrdd iechyd ar gyfer pecynnau gofal) wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad, ond maent wedi'u rhestru yn y modelydd cyllideb cysylltiedig.

Mae cwestiwn ar lefelau'r dreth gyngor hefyd wedi'i gynnwys ac yn gofyn am y cydbwysedd rhwng defnyddio'r dreth gyngor a chynilion i gydbwyso'r gyllideb. O hyn, gellir cyfrifo amcangyfrif o'r lefel a ffefrir o'r dreth gyngor. Rydym wedi gofyn y cwestiwn fel hyn gan ein bod yn ystyried (yn seiliedig ar ddefnyddio hyn yn ymgynghoriad cyllideb 2025–2026) ei fod yn adlewyrchu'n well y dewisiadau y mae angen eu gwneud gan fod y lefel a ffefrir o'r dreth gyngor yn anochel yn cael effaith ar gynigion arbedion gwasanaeth ac i'r gwrthwyneb.

Adran 2 – Data a thystiolaeth

Rhowch fanylion y data a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r cynnig, e.e. adroddiadau, data lleol neu genedlaethol, adborth defnyddwyr gwasanaeth, canlyniadau ymgynghoriadau blaenorol, cynlluniau busnes ac ati. (Dylid ychwanegu tystiolaeth benodol sy'n ymwneud â gofynion deddfwriaethol at yr adrannau perthnasol 3 i 9 isod.)

Mae'r cynigion yn deillio o ofyniad i wasanaethau nodi arbediad cyllideb refeniw net o 5% ar gyfer 2026–2027 (a 5% ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2027–2028 a 2028–2029) neu 15% erbyn 2028–2029.

Mae cynigion cyllideb wedi'u datblygu drwy gynhyrchu cynlluniau gwasanaeth (o fis Chwefror 2025). Mewn rhai achosion, mae cynigion cyllideb yn estyniad o arbedion cyllideb blynyddoedd blaenorol a/neu maent wedi'u nodi mewn blynyddoedd blaenorol ond heb eu datblygu, yn aml oherwydd eu heffaith.

Mae cynigion cyllideb wedi cael eu profi drwy nifer o drafodaethau cyllideb gyda rheolwyr a chydag aelodau drwy gydol yr hydref. Yn aml, mae rheolwyr ac aelodau wedi gallu tynnu ar eu profiadau o wneud arbedion tebyg mewn blynyddoedd blaenorol, sydd wedi helpu i lywio eu hasesiad o'r effaith debygol, yr amserlenni a rhwyddineb cyflawni.

Adran 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r canllawiau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodau llesiant a datblygu cynaliadwy:

<https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-yr-hanfodion>

Pa rai o'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt neu'n cyfrannu at eu cyflawni?

Nod llesiant cenedlaethol	Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol	Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol	Dim effaith – rhowch esboniad
Cymru lewyrchus	O ystyried y bydd y cynigion yn lleihau adnoddau, mae'r effeithiau cadarnhaol yn gyfyngedig. Bydd rhai cynigion gofal cymdeithasol i oedolion yn tueddu i hyrwyddo byw'n annibynnol.	Gan dybio na chaiff yr opsiynau Gwaedgoch eu cymryd, ni ddisgwylir i wasanaethau sydd â chysylltiad cryf â'r economi (cynllunio ac adfywio) wneud arbedion sylweddol, ond bydd y cynigion yn gwneud y cyngor yn fwy dibynnol ar gyllid grant i gyflawni adfywio.	
Cymru gydnerth		Bydd cynigion i leihau gwariant ar gynnal a chadw ffyrdd a glanhau strydoedd yn effeithio ar yr amcan hwn.	Bydd gan y rhan fwyaf o gynigion arbed effaith niwtral ar y nodau hyn, gan gynnwys cynigion ar gyfer cynhyrchu incwm o werthu deunydd a gesglir i'w ailgylchu.
Cymru iachach		- Bydd y gyllideb yn canfod y rhan fwyaf o'r arbedion mewn dau faes eang: cyllidebau ysgolion (arbediad o ryw 2%, tua £2 filiwn ond gyda'r potensial i hyn fod yn uwch) a gofal cymdeithasol (tua £5 miliwn i oedolion ac £1.1 miliwn i blant). Mae mwyafrif yr arbedion ar gyfer gofal oedolion yn deillio o gomisiynu gwaith a/neu adolygu pecynnau gofal gyda phwyslais ar gadw pobl o fewn y gymuned cyn belled ag y bo modd. Daw arbedion o fewn gofal plant o ddefnyddio modelau ataliol. Daw arbedion mewn gofal cymdeithasol gyda'r amod y bydd anghenion statudol yn cael eu diwallu, gan ddarparu rhwyd ddiogelwch. Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru ar godi tâl yn parhau mewn grym ac mae'r cyfraniad wythnosol uchaf wedi aros yr un fath ar £100 yr wythnos ers 2020 (tua £123 ar brisiau 2025 yn seiliedig ar chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr).	

Cymru sy'n fwy cyfartal		Bydd y broses o bennu'r gyllideb yn cydbwysu codi cyllid o'r dreth gyngor (sy'n tueddu i fod yn atchweliadol ac yn effeithio galetaf ar deuluoedd incwm isel) a lleihau gwariant ar wasanaethau a chynyddu ffioedd sy'n tueddu i daro ystod ehangach o bobl ar incwm isel.	
Cymru o gymunedau cydlynus			Mae'n annhebygol y bydd cynigion yn effeithio ar dai (mae cyllid tai cyngor ar wahân).
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu		Bydd cynigion i leihau adnoddau ar gyfer y gwasanaeth cerddoriaeth yn cael effaith negyddol. Bydd cynigion ar gyfer llyfrgelloedd, os bydd partneriaethau â chymunedau yn llwyddiannus, yn diogelu mynediad at lyfrgelloedd a llyfrau Cymraeg.	
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang		Gweler yr adran ar wahân ar y Gymraeg. Mae'n annhebygol y bydd y cynigion yn effeithio'n uniongyrchol ar leihau carbon ond byddant yn ymestyn y capasiti i gyflawni cynlluniau buddsoddi i arbed.	

Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?

Diben yr ymgynghoriad yw pennu'r awydd i gynyddu'r dreth gyngor a chael rhagor o fewnwelediad i effaith y newidiadau arfaethedig. Lle bo'n briodol, bydd lliniaru yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad effaith llawn o'r gyllideb.

Egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu, wrth wneud penderfyniadau, bod angen i'r cyngor ystyried yr effaith y gallai'r penderfyniadau hyn ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol drwy ystyried y pum ffordd ganlynol o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithredu
- Cynnwys pobl

Amlinellwch sut rydych chi wedi ystyried pob un o'r rhain wrth ddatblygu eich cynnig.

Ffyrdd o weithio	Sut ystyriwyd hyn wrth ddatblygu eich cynnig?
Hirdymor	Yn ei hanfod, mae'r cyngor yn gweithio yn ôl rowndiau ariannu blynyddol gan Lywodraeth Cymru sy'n rhwystro cynllunio hirdymor. Mae cynllunio ariannol yn tueddu i fod dros y tymor canolig ac mae cynigion arbed gwasanaethau dros gyfnod o dair blynedd. Defnyddir prosesau cynllunio tymor hwy, er enghraifft ar

	gyfer ad-drefnu ysgolion neu annog atal / lleihau galw mewn gofal cymdeithasol ochr yn ochr â'r broses gynllunio cyllideb, ac mae'r rhain yn allweddol i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol.
Atal	Cytunwyd ar raglen atal dwy flynedd, yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol ond hefyd yn dyrannu rhywfaint o adnoddau i adfywio ym mis Ebrill 2025. Ariannwyd hyn o'r gronfa wrth gefn ar gyfer mentrau, cyllid na fyddai wedi bod ar gael pe bai cyllidebau'r blynyddoedd blaenorol wedi gorwario. O ystyried maint yr arbedion cyllidebol y mae eu hangen, mae rhai cynigion sy'n anghyson ag atal yn cael eu hystyried, megis gostyngiadau i gyllidebau cynnal a chadw priffyrdd. Er y gellir osgoi lefelau uwch o arbedion addysg, byddai gostyngiad o hyd yn oed 2% i gyllidebau ysgolion yn ei gwneud hi'n anoddach mynd ar drywydd prosiectau atal mewn ysgolion.
Integreiddio	Mae'r cynigion cyllideb wedi'u datblygu a'u blaenoriaethu drwy chwilio am gynigion sy'n arbed arian drwy brosesau mwy effeithlon yn hytrach nag effeithio ar gwsmeriaid, ac nid ydynt yn edrych ar effaith newidiadau i wasanaethau unigol ar eu pen eu hunain.
Cydweithredu	Mae nifer o gynigion yn dibynnu ar berthnasoedd gwaith da gyda sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
Cynnwys pobl	Yr ymgynghoriad hwn, ynghyd â digwyddiadau wyneb yn wyneb, dwy sesiwn gyllideb ar Facebook Live, yn llywio'r cynigion a ystyrir gan y cyngor ar gyfer cyllideb derfynol 2026–2027.
Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod	
Mae'r testun uchod wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau ar gynigion arbed cyllideb.	

Adran 4 – Amcanion Llesiant Cyngor Sir Penfro

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i gyhoeddi amcanion Llesiant. Mae ein [strategaeth gorfforaethol](#) yn amlinellu amcanion Llesiant y cyngor.

A ydyw eich cynnig yn helpu i gyflawni unrhyw un o amcanion Llesiant y cyngor? A fydd ganddo effaith gadarnhaol neu negyddol?

Amcan Llesiant	Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol	Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol	Dim effaith – rhwch esboniad
Ein Dyfodol – galluogi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, wrth eu cyfarparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol		Mae'n debygol y bydd y cynnig i leihau cyllidebau ysgolion yn cael effaith	Mae rhaglen ataliol y cyngor wedi'i hariannu drwy'r gronfa wrth gefn ac ni fydd cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arno
Ein Lle – lleoedd llewyrchus, gydag amgylcheddau glân, diogel a chynaliadwy, lle gall pobl fyw'n dda a ffynnu		Mae cynigion i leihau gwariant ar lanbau a chynnal a chadw ffyrdd yn debygol o gael effaith negyddol	Cymharol ychydig o gynigion a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amcan hwn. Mae'r gofynion arbedion tebygol ar gyfer adfywio yn gyfyngedig ac mae'n annhebygol y bydd arbedion ar gyfer cynllunio yn cael eu cymryd.
Ein Cymunedau – gofalu am bobl, a galluogi cymunedau gweithgar, dyfeisgar a chysylltiedig	Rhywfaint o botensial i gefnogi byw'n annibynnol	Fel yr amlinellwyd yn yr adran Cymru iachach, bydd pwysau ar gyllidebau gofal cymdeithasol (oedolion yn bennaf). Mae'n debygol y bydd effaith y rhain yn niwtral ar y cyfan ond gallant arwain at newid yn y ffordd y darperir gofal rhai pobl.	
Ein Cyngor – cyngor sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd wedi'i lywodraethu'n dda, a chanddo weithlu sy'n gallu cefnogi'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu	Y nod yw gosod cyllideb gytbwys er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Heb y ddisgyblaeth yn y blynyddoedd blaenorol, mae'n debygol y byddai'r cyngor mewn sefyllfa llawer mwy difrifol.	Mae cynigion sy'n tynnu llawer iawn o adnoddau allan o brosesau corfforaethol allweddol – Timau technoleg gwybodaeth a chymorth digidol, timau cyllid, adnoddau dynol ac archwilio - yn cael eu graddio'n Goch 2 Gwaedgoch ond mae'n bosibl y bydd angen eu hystyried yn dibynnu ar symudiadau posibl ym maint y bwlch ariannu a phenderfyniadau ar lefelau'r dreth gyngor. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal y gwelliannau a wnaed mewn llywodraethu corfforaethol yn ogystal â'i gwneud hi'n anoddach cynllunio cyllidebau'r blynyddoedd i ddod.	

Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?

Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion ac a ddylid cynyddu'r dreth gyngor er mwyn osgoi eu cymryd.

Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod

Bydd yr ymgynghoriad yn cynhyrchu dystiolaeth ar effeithiau tebygol ac, yn seiliedig ar ymgynghoriadau blynyddoedd blaenorol, syniadau ar sut y gellid lliniaru cynigion.

Adran 5 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Gall fod gan unigolion fwy nag un nodwedd warchodedig.

Disgrifiwch unrhyw effeithiau ar y grwpiau canlynol:

Nodwedd warchodedig	Cadarnhaol – disgrifiwch	Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol	Dim effaith – rhowch esboniad
Oedran	Fel y nodwyd mewn man arall, mae'n annhebygol y bydd cynigion yn cael effaith gadarnhaol	Mae'n debygol y bydd rhai o'r cynigion, fel gostyngiadau yng nghyllideb ysgolion neu ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, yn effeithio ar wahanol grwpiau oedran	
Anabledd		Mae nifer o gynigion ar gyfer gofal oedolion sy'n dibynnu ar adolygu pecynnau gofal sy'n cynorthwyo pobl anabl. Er y gall yr effaith gyffredinol fod yn gadarnhaol gan y bydd newidiadau'n hyrwyddo annibyniaeth, gall rhai defnyddwyr gwasanaeth weld newidiadau i'w cymorth ac mae'r ymgynghoriad yn gyfle iddynt fynegi barn.	
Ailbennu rhywedd			Yn seiliedig ar ymgynghoriadau cyllideb blynyddoedd blaenorol, mae'n annhebygol y bydd effaith
Priodas a phartneriaeth sifil			Yn seiliedig ar ymgynghoriadau cyllideb blynyddoedd blaenorol, mae'n annhebygol y bydd effaith

Beichiogrwydd a mamolaeth		Mae newidiadau wedi'u cynllunio ar gyfer Dechrau'n Deg (blynyddoedd cynnar) a fydd yn dod yn wasanaeth cyffredinol yn hytrach na menter wedi'i thargedu'n ddaearyddol, gan ganiatáu mwy o ddefnydd o'r grant hwn a gostyngiad dilynol yn y pwysau ar gyllid Cyngor Sir Penfro. Bydd barn yn cael ei cheisio. Annhebygol y bydd unrhyw ostyngiad yn y gallu i ddarparu gofal cymdeithasol i blant.	
Hil			Yn seiliedig ar ymgynghoriadau cyllideb blynyddoedd blaenorol, mae'n annhebygol y bydd effaith
Crefydd neu gred			Yn seiliedig ar ymgynghoriadau cyllideb blynyddoedd blaenorol, mae'n annhebygol y bydd effaith
Rhyw			Yn seiliedig ar ymgynghoriadau cyllideb blynyddoedd blaenorol, mae'n annhebygol y bydd effaith. Fodd bynnag, mae yna wahaniaethau bach hefyd yng nghyfrannau dynion a menywod ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
Cyfeiriadedd rhywiol			Yn seiliedig ar ymgynghoriadau cyllideb blynyddoedd blaenorol, mae'n annhebygol y bydd effaith

Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?

Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi effeithiau negyddol ar gyfer y grwpiau uchod

Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod

Bydd yr ymgynghoriad yn cynhyrchu dystiolaeth ar effeithiau tebygol ac, yn seiliedig ar ymgynghoriadau blynyddoedd blaenorol, syniadau ar sut y gellid lliniaru cynigion.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn y gymdeithas. Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud â gwahaniaethau mesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae [canllawiau](#) manwl ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Disgrifiwch yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael.

Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol	Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol	Dim effaith – rhowch esboniad
O ystyried bod y cynigion yn anelu at leihau gwariant, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnig yn cael effaith gadarnhaol ar leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.	Yn aml, disgrifir addysg fel yr ateb hirdymor gorau i dlodi. Mae risg y bydd gostyngiadau mwy i gyllidebau ysgolion yn cael effaith negyddol ar dlodi. Mae gan y gwasanaeth cerddoriaeth ysgolion a'r gwasanaeth chwaraeon hanes da o fod yn gynhwysol ac ymestyn mynediad i bobl ifanc ar incwm isel. Mae gostyngiadau sylweddol yn y gwasanaethau hyn yn debygol o effeithio ar bobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel. Gall gostyngiad yn nifer y staff yn Refeniw a Budd-daliadau effeithio ar y gallu i brosesu budd-daliadau neu ostyngiadau'r Dreth Gyngor mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae'r effaith yn y dyfodol yn dibynnu ar y ffordd y gall digideiddio leihau costau gweinyddol. Gall cynigion i gynyddu cost larwm cymunedol a ffioedd meysydd parcio hefyd gael effaith.	Bydd cymharol ychydig o'r cynigion yn arwain at daliadau ychwanegol i ddefnyddwyr ond mae'r polisi strategaeth gyllidebol yn nodi y bydd yr holl ffioedd a thaliadau yn cynyddu yn unol â chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2024.

Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?

Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi effeithiau negyddol

Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod

Bydd yr ymgynghoriad yn cynhyrchu dystiolaeth ar effeithiau tebygol ac, yn seiliedig ar ymgynghoriadau blynyddoedd blaenorol, syniadau ar sut y gellid lliniaru cynigion.

Adran 6 – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ystyried yr effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Disgrifiwch yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael.

Cadarnhaol	Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol	Dim effaith
O ystyried bod y cynigion yn anelu at leihau gwariant, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, neu y gellid ei ail-lunio i greu effaith gadarnhaol. Mae'n werth nodi nad yw mentrau a gynlluniwyd ar gyfer 2026–2027 a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg fel Eisteddfod y Garreg Las 2026 yn ddibynnol ar gyllideb y cyngor ar gyfer 2026–2027.	Gostyngiad o £250,000 yn yr adnoddau ar gyfer y Ganolfan Gyswllt. Er nad oes bwriad i leihau'r gallu i ateb galwadau Cymraeg, bydd gostyngiad yn nifer y staff (neu'r bygythiad o lai o adnoddau yn arwain at drosiant staff annisgwyl) yn ei gwneud hi'n anoddach sicrhau bod pob galwad Gymraeg yn cael ei hateb o fewn amser tebyg i alwadau Saesneg. Ar hyn o bryd, mae'r amser ateb cyfartalog ar gyfer pob galwad tua 9 munud o'i gymharu â tharged o 2 funud. Bydd cynigion i leihau cyllidebau ysgolion yn tueddu i'w gwneud hi'n anoddach cyflawni Cynllun Strategol Addysg Cymru. Bydd angen i ysgolion eu hunain wneud arbedion, ac er nad ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth yr effeithir ar ysgolion Cymraeg yn fwy difrifol nag ar ysgolion Saesneg, o ystyried pwysigrwydd addysg i ddyfodol y Gymraeg, mae angen tynnu sylw at hyn. Mae'n werth nodi bod y fformiwla a ddefnyddir yn Sir Benfro yn rhoi'r un pwysau i ysgolion Cymraeg ag y mae'n ei roi i ysgolion Saesneg wrth ddyrannu adnoddau fesul disgybl. Fodd bynnag, rhoddir dyraniad uwch i ysgolion dwyieithog er mwyn cydnabod y costau uwch y mae'r ysgolion hyn yn eu hwynebu. Mae maint yr arbedion y mae eu hangen ar ysgolion (gall hyn arwain at gynydd mewn termau arian parod o hyd), yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 2.5%, a gall fod yn is na hyn. Mae hyn yn cyferbynnu â'r gofyniad arbed o 5% ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau'r cyngor. Bydd y cynnig canlynol yn effeithio ar addysgu'r Gymraeg, ond mae'n werth nodi y bydd elfennau craidd y cyrsiau hyn yn parhau i gael eu cyflwyno heb unrhyw gost i'r dysgwr: <i>E10. Bydd y Grant Cymraeg i Oedolion yn canolbwyntio ar gyflwyno pynciau craidd gydag elfennau dewisol naill ai</i>	Ein barn ni yw y bydd y mwyafrif helaeth o arbedion cyllidebol yn effeithio ar bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr un modd ag y maent yn effeithio ar siaradwyr Saesneg. Mae safonau Cymraeg y cyngor yn parhau mewn grym, a bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn dibynnu ar ddewis defnyddwyr y gwasanaeth. Mae dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned a chan Gyngor Sir Penfro yn cael eu hariannu trwy grant Llywodraeth Cymru, ac y mae hyn y tu allan i broses gyllideb Cyngor Sir Penfro.

	wedi dod i ben neu'n destun ffi dysgwr fel rhan o'r cynnig addysg oedolion cyffredinol. Yr effaith yw y bydd rhai dysgwyr yn talu tuag at eu cwrs. Arbediad amcangyfrifedig: £25,400.	
Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?		
Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddefnyddio technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial i leihau'r galw ar y ganolfan gyswllt a fydd yn helpu i leihau amseroedd ateb ffôn. Mae'r angen i fodloni safonau'r Gymraeg yn rhan o'r fanyleb ar gyfer y gwaith hwn. Yn seiliedig ar 2024–2025, yr amser cyfartalog y mae cwsmer yn aros i'r ffôn gael ei ateb yn y ciw Saesneg oedd 31 eiliad o'i gymharu â 45 yn y ciw Cymraeg. Mae'n debygol, ar gyfartaledd, y bydd y gyllideb yn gofyn am arbediad cyllidebol llai gan ysgolion nag y mae gan wasanaethau eraill y cyngor, a bydd hyn yn darparu rhywfaint o liniaru. Bydd Cynllun Strategol Addysg Cymru yn parhau i gael ei gyflawni. Er nad yw cyllid cyfalaf wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad, mae'n werth nodi bod cyfraniadau cyfalaf Llywodraeth Cymru i adeiladau ysgol newydd neu wedi'u hadnewyddu wedi bod yn fwy hael ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae bwrsariaethau ar gael i helpu i dalu costau unrhyw ffioedd ychwanegol a allai gael eu codi am gyrsiau Cymraeg. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y canlynol, a fydd o gymorth i nodi unrhyw effeithiau negyddol ynghyd ag unrhyw gyfleoedd a gollwyd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r cwestiwn yn gyson â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg. <i>Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig / cynigion yn eu cael ar y canlynol:</i> • <i>cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?</i> • <i>peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?</i> <i>Ystyriwch a ellir newid y cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol (neu effeithiau mwy cadarnhaol), ac er mwyn osgoi, neu leihau effeithiau negyddol ar y canlynol:</i> <i>(i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?</i> <i>(ii) yr angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?</i> <i>Os felly – sut? Os na – pam?</i>		
Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod		
Bydd yr asesiad effaith terfynol yn defnyddio data o'r ymgynghoriad. Os nodir effeithiau negyddol, ystyrir opsiynau ar gyfer lliniaru.		

Adran 7 – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6

O dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i'r cyngor geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a, thrwy wneud hynny, rhaid inni hefyd geisio hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

A ydyw'r cynnig yn effeithio ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau?

Ydyw

Nac ydyw

Os ydyw, beth yw effaith ddisgwyliedig y cynnig ar fioamrywiaeth? Rhowch esboniad

Wedi'i chynnal

Mae'r cynigion sy'n cael eu hystyried yn ystyried y cyfyngiadau ar y gallu i'w cyflawni a osodir gan yr angen am niwtraliaeth maetholion. Byddai cynigion i leihau glanhau yn tueddu i arwain at fwy o straen ar yr amgylchedd.

Wedi'i gwella

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw un o'r cynigion yn arwain at welliannau i'r fioamrywiaeth na'r amgylchedd.

Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?

Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi effeithiau negyddol

Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod

Bydd yr ymgynghoriad yn cynhyrchu dystiolaeth ar effeithiau tebygol ac, yn seiliedig ar ymgynghoriadau blynyddoedd blaenorol, syniadau ar sut y gellid liniaru cynigion.

Adran 8 – Datgarboneiddio a newid hinsawdd – Cyngor Sir Penfro sy'n garbon sero net erbyn 2030

Ym mis Mai 2019, pleidleisiodd y cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd ac, ym mis Gorffennaf yn yr un flwyddyn, pleidleisiodd i ddatblygu cynllun gweithredu i lywio Cyngor Sir Penfro tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Mae rhagor o wybodaeth am y [cynllun gweithredu](#) ar gael ar wefan y cyngor.

Pa effeithiau fydd gan y cynnig ar ymrwymiad y cyngor i ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030?

Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol	Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol	Dim effaith – rhowch esboniad
		Mae'r cynllun gweithredu yn y broses o gael ei adolygu. Er nad yw lleihau adnoddau mewn termau real yn debygol o gael effaith gadarnhaol, yn seiliedig ar y cynllun presennol a'r cynigion cyfredol, mae'n debygol y bydd yr effaith yn niwtral ar y cyfan.
Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?		
Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi effeithiau negyddol		
Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod		
Bydd yr ymgynghoriad yn cynhyrchu dystiolaeth ar effeithiau tebygol ac, yn seiliedig ar ymgynghoriadau blynyddoedd blaenorol, syniadau ar sut y gellid lliniaru cynigion.		

Adran 9 – Dyletswydd Cyfamod y Lluedd Arfog

Mae gan y cyngor rwymedigaeth gyfreithiol o dan y ddyletswydd uchod i ystyried effaith penderfyniadau sy'n effeithio ar aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluedd arfog neu sy'n gyn-aelodau o'r lluedd arfog, wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd, tai ac addysg. Ym mis Medi 2024, dyfarnwyd Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i Gyngor Sir Penfro, gan dynnu sylw at ymrwymiad yr awdurdod i gefnogi'r rhai sy'n cadw ein cenedl yn ddiogel, yn ogystal â'u teuluoedd a chyn-filwyr. Mae [canllawiau](#) statudol ar gael ar wefan Gov.uk. Disgrifiwch effeithiau'r cynnig ar gymuned y lluedd arfog mewn perthynas â'r canlynol:

Swyddogaethau perthnasol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim effaith – rhowch esboniad
Iechyd - Darparu gwasanaethau - Cynllunio a chyllido			Mae'r cwestiynau demograffig ynghylch a ydyw ymatebydd yn aelod o gymuned y lluedd arfog wedi'u cynnwys yn y ffurflen ymateb.

• Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol			Canlyniadau ymgynghoriad y llynedd oedd bod aelodau o gymuned y lluoedd arfog yn fwy tebygol o ffafrio cynnydd isel neu ddim cynnydd o gwbl yn y dreth gyngor. Yn seiliedig ar wybodaeth gychwynnol, mae'n annhebygol y bydd cynigion yn effeithio'n wahanol ar aelodau'r gymuned lluoedd arfog o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae'n werth nodi bod cyn-filwyr iau mewn mwy o berygl o ddod yn ddigartref a bod y gwasanaethau hyn yn parhau i fod dan bwysau (a chyfyngiadau rheoleiddiol niwtraliaeth maetholion ar ddatblygu llety dros dro mewnol ychwanegol).
Tai • Polisi dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol • Digartrefedd • Grantiau cyfleusterau i bobl anabl			
Addysg • Derbyniadau • Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm • Llesiant plant • Trafnidiaeth • Presenoldeb • Cymorth anghenion ychwanegol			
Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?			
Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi effeithiau negyddol			
Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod			
Bydd yr ymgynghoriad yn cynhyrchu dystiolaeth ar effeithiau tebygol ac, yn seiliedig ar ymgynghoriadau blynyddoedd blaenorol, syniadau ar sut y gellid lliniaru cynigion.			

Cymeradwyaeth cyfarwyddwr / pennaeth gwasanaeth			
Enw:	Jon Haswell		
Teitl y swydd:	Cyfarwyddwr Adnoddau		
Llofnod:		Dyddiad:	24 Tachwedd 2025